OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 5

Cyhoeddusrwydd a Gweithdrefnau ar Gyflwyno Datganiadau Amgylcheddol

### Y weithdrefn pan fo datganiad amgylcheddol yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo ceisydd neu apelydd yn cyflwyno datganiad amgylcheddol i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â chais AEA—

(a) sydd gerbron Gweinidogion Cymru neu arolygydd er mwyn penderfynu arno; neu

(b) sy'n destun apêl i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r ceisydd neu'r apelydd gyflwyno'r datganiad amgylcheddol i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio perthnasol yn electronig ac ar bapur, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig.

(3) Caiff ceisydd neu apelydd sy'n cyflwyno datganiad amgylcheddol i Weinidogion Cymru ddarparu copi ohono i unrhyw gorff arall, ac os gwneir hynny rhaid iddo—

(a) cydymffurfio ag is-baragraffau (a) a (b) o reoliad 18(2) fel pe bai'r cyfeiriad yn rheoliad 18(2)(b) at yr awdurdod cynllunio perthnasol yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru; a

(b) hysbysu Gweinidogion Cymru o'r materion a grybwyllir yn rheoliad 18(2)(c).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rheoliad 18(3) (heblaw is-baragraff (a) o'r rheoliad hwnnw) a rhaid i'r ceisydd neu'r apelydd gydymffurfio â rheoliad 18(4) fel pe bai—

(a) cyfeiriadau yn y darpariaethau hynny at yr awdurdod cynllunio perthnasol yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru; a

(b) yn achos apêl, cyfeiriadau at y ceisydd yn gyfeiriadau at yr apelydd,

a rhaid i Weinidogion Cymru neu'r arolygydd gydymffurfio â rheoliad 18(6) fel pe bai'n cyfeirio at Weinidogion Cymru neu'r arolygydd yn hytrach na'r awdurdod cynllunio perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 21 mewn grym ar 16.5.2017, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/05/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, Adran 21.